

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 11eg Rhagfyr, 2017, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen

Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans Glyn Roberts, Michael Stran, Glenys

Williams

### **67. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Deallwyd fod Y Cynghorydd Glyn Roberts wedi derbyn ei lawdriniaeth ychydig ddyddiau ynghynt a dymunwyd gwellhad buan iddo.

### **68. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

### **69. CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 11eg Tachwedd, 2017.

#### **MATERION YN CODI**

#### ***(1) Eitem 57 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd – ymweliad Mrs. Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru***

**Adroddodd** y Clarc nad oedd wedi derbyn galwad oddi wrth Mrs. Carol Williams fel y addawodd yn y cyfarfod ynglyn a materion oedd eu hanfon i'w sylw yn ystod y misoedd blaenorol.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

#### ***(2) Eitem 59 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (3) – Archwilio'r Cyfrifon***

**Adroddodd** y Clarc iddi gael gair pellach â'r Cynghorydd Michael Strain ynglyn a sefydlu'r wefan ac iddi gael ar ddeall mai ym mis Ionawr y byddai cyfarfod o Swyddogion y Llanw a doeth fyddai aros dan hynny.

Dywedodd y Clarc ymhellach ei bod yn rhaid i'r Cyngor symud ymlaen gyda'r wefan mor fuan a bo modd gan na ellir mynd i Archwiliad Allanol unwaith yn rhagor heb fod y wefan yn weithredol.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

### **(3) Eitem 61 – Materion Iechyd – Y Feddygfa yn Rhydbach**

**Cyflwynwyd** adroddiad y Clarc iddi gael ymateb gan Mr. Dave Shaw, Rheolwr y Practis yn hysbysu fod llythyr y Cyngor wedi ei anfon ymlaen i'r adran yn 'BCUHB' i'w gyfieithu ac iddo dderbyn y cyfeithiad yn ôl ar 5ed Rhagfyr. 'Roedd wedi anfon ei ymateb ymlaen at yr adran unwaith yn rhagor i'w gyfieithu a byddai'n ymateb y Cyngor yn dilyn hynny.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

### **(4) Eitem 66 – Sedd wag yn Ward Sarn Mellteyrn**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn gwybodaeth gan Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd, nad oedd wedi derbyn cais ysgrifenedig am etholiad i lenwi'r sedd wag yn Sarn Mellteyrn. Yn wyneb hyn 'roedd yn ofynnol rhoddi rhybudd i fyny yn tair Ward i hysbysu'r etholwyr o'r bwriad i gyfethol aelod ar y Cyngor.

Derbyniwyd rhybudd yn y ddwy iaith a gofynnodd y Clarc ym mha iaith 'roedd y Cyngor yn dymuno i'r rhybudd ymddangos yn gyhoeddus.

**Penderfynwyd** rhoi'r rhybudd i fyny yn Gymraeg yn unig – rhybuddion yn Waterloo House, Sarn, Swyddfa'r Post ym Motwnnog a'r Ganolfan ym Mryncoes.

## **70. CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y cais a ganlyn i'r cyfarfod:

Cais C17/1189/32/LL – diwygio amod 2 ar ganiatad cynllunio C08D/0349/32/LL er mwyn adeiladu'r ty yn unol a chynlluniau diwygiedig – rhan o gae 0008 ym Motwnnog.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais

## **71. MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i'r Cyngor Iechyd.

## **72. MATERION FFYRDD**

**Adroddodd** Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, ei fod yn cyfarfod a Swyddogion o Gyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y diwrnodau dilynol er trafod y posibilrwydd o ddatrys y broblem o lifogydd ym Motwnnog – yr Ysgol ym Mhont y Gof a'r tai a effeithiwyd yn ystod y stormydd diweddaraf. Dywedodd y byddai'n adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

Yn y cyswllt yma **penderfynwyd** anfon unwaith yn rhagor at y Peiriannydd Rhanbarthol yng Nghyngor Gwynedd i ofyn pa bryd y byddai'r tyllau edrych ym Mhenygroeslon a Groeslon Siop Lwyd yn cael eu glanhau. (Nodyn – yn ei lythyr 2ail Hydref, 2017, dywedodd y Swyddog fod y “gwaith o lanhau'r ddarpariaeth draenio nodwyd gennych wedi ei gynnwys ar raglen waith y gweithlu”).

### 73. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:

HMRC	£ 93.20
Y Clarc	£372.55

### 74. **UN LLAIS CYMRU**

**Cyflwynwyd** rhybudd o gyfarfod o Bwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor oedd i'w gynnal yng Nghaernarfon ar 13eg Rhagfyr, 2017. Cynrychiolwyr y Cyngor yw'r Cynghorydd David Brunelli a'r diweddar Harry Richards.

Yn dilyn marwolaeth Harry Richards 'roedd hawl gan y Cyngor i ethol aelod arall i'w cynrychioli ar y Pwyllgor Ardal.

**Penderfynwyd** ethol Y Cynghorydd Elin Hughes i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor Ardal ac fod y cyfryw i'w gydnabod yn ddyletswydd cydnabyddiedig. (Aelodaeth y Pwyllgor Ardal fydd Y Cynghorwyr David Brunelli ag Elin Hughes.

### 5. **O DDRWS I DDRWS**

**Cyflwynwyd** gwahoddiad i ddathlu llwyddiant Bws Arfordir Llyn yn Nefyn ar Ddydd Gwener, 15fed Rhagfyr, 2017. Dywedodd y Cynghorydd Elin Hughes ei bod yn mynd gyda'i gwaith ac ei bod yn barod i gynrychioli'r Cyngor hefyd. Derbyniwyd gyda diolch.

### 76. **TOILEDAU CYHOEDDUS SARN MELLEYN**

**Cyflwynwyd** adroddiad y Clarc iddi ymweld â Mrs. Marian Williams, Modurdy Penybont, Sarn, ar gais y Cynghorydd Glyn Roberts.

Deallwyd fod gan Mrs. Williams yr awydd i ail agor y toiledau cyhoeddus ym mhentref Sarn Mellteyrn ac y byddai'n gofalu amdanynt ei hun.

Cafwyd gair â Bethan Hughes o Gyngor Gwynedd er cael caniatad ganddi i roi ei manylion i Mrs. Williams gysylltu'n uniongyrchol – cafwyd y caniatad ac mae'r manylion perthnasol bellach wedi eu trosglwyddo i Mrs. Williams.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.